COFNOD O GYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD MAWRTH, 24 MEDI 2024 AM 14:30

Yn bresennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| J Gebbie | H M Williams | E L P Caparros | P Davies |
| M J Evans | M Jones | | |

Yn Bresennol yn Rhithiol

N Farr

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Pherfformiad |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Lewis | Rheolwr Grŵp - Gweithio Integredig |
| Helen Picton | Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir |

Datganiadau o Fuddiant

Bu i'r Aelodau canlynol ddatgan diddordeb personol yn Eitem 10 - Polisi Addysg Ddewisol yn y Cartref 2024-2027

H M Williams
J Gebbie
M J Evans
M Jones

## 362. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23/07/2024 a 10/09/204 fel gwir gofnod. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Medi 2024 |

## 363. System Amgen ar gyfer Caredirector (WCCIS)

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant adroddiad oedd yn:<br><br>• Darparu diweddariad i'r Cabinet ynghylch caffael system gofal cymdeithasol amgen ar gyfer CareDirector (WCCIS).<br><br>• Rhoi gwybod i'r Cabinet am beryglon methu â dyfarnu cytundeb yn unol ag amserlenni caffael.<br><br>• Ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet er mwyn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog, Cyllid, Perfformiad a Newid a'r Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheolaethol i dderbyn y tendr sydd â'r mwyaf o fudd economaidd a dderbyniwyd ac i gytundebu a darparu unrhyw gytundebau a dogfennau ategol gyda'r ymgeisydd llwyddiannus. |

| | |
|---|---|
| | Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn dilyn gwerthuso'r opsiynau amgen, bod y 18 awdurdod lleol oedd yn caffael system newydd wedi cytuno i gydweithio â'i gilydd ar raglen genedlaethol, ond i gaffael drwy 6 chlwstwr, yn amrywio o ran maint o 1 i 6 awdurdod lleol ym mhob clwstwr. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o glwstwr Cwm Taf Morgannwg (CTM). Amlygwyd hyn yn Nhabl 1 yr adroddiad.<br><br>Nododd fod Tabl 2 yn dangos yr amserlenni o'r dyddiad cau cyflwyno tendr hyd nes i'r system newydd gael ei rhoi ar waith.<br><br>Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant bod yna beryglon i'r Cyngor pe na bai'n cymeradwyo'r tendr ar yr un pryd â'n partneriaid rhanbarthol, a'r prif risg oedd na fyddai gan y Cyngor system reoli cefnogi achos yn ei lle wedi mis Ionawr 2026, a byddai hynny'n golygu methiant sylfaenol o ran diogelu, a gwarchod plant ac oedolion, ym Mhen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Roedd y Dirprwy Arweinydd yn falch o weld ein bod yn gwneud cynnydd ar hyn. Roedd yn siomedig i weld nad oedd Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddent yn gallu cyfrannu o safbwynt yr ariannu. Ychwanegodd y byddai'n risg uchel i'r Fwrdeistref Sirol i beidio â dyfarnu cytundeb a'i gobaith oedd y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid pan fyddai ei angen.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:<br><br>• Nodwyd y diweddariad ar gaffael system gofal cymdeithasol amgen ar gyfer Caredirector (WCCIS);<br><br>• Nodwyd bod peryglon methu â dyfarnu cytundeb yn unol ag amserlenni caffael;<br><br>• Awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog, Cyllid, Perfformiad a Newid a'r Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheolaethol i dderbyn y tendr sydd o fwy o fudd economaidd a dderbyniwyd ac i gytundebu a darparu unrhyw gytundebau a dogfennau ategol gyda'r ymgeisydd llwyddiannus. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Medi 2024 |

**364. Datganiad Sefyllfa Tai a Digartrefedd**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid adroddiad oedd yn:<br><br>• Diweddaru'r Cabinet ynghylch y darnau allweddol o waith sy'n mynd rhagddynt i fynd i'r afael â'r straen ar wasanaethau tai a digartrefedd;<br><br>• Ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet ar gyfer caffael tri eiddo sydd o fewn amcangyfrifon cyfalaf y Cyngor oedd wedi'u cymeradwyo er mwyn darparu llety dros dro, yn amodol ar bob diwydrwydd dyladwy a chyngor cyfreithiol.<br><br>Eglurodd fod y Cabinet, ym mis Mawrth 2024, wedi cymeradwyo cynnig oedd yn awdurdodi prynu eiddo o’r math amlfeddiannaeth (HMO) at bwrpas darparu llety dros dro. Ers hynny, roedd gwaith wedi digwydd ochr yn ochr â'r adran Landlord Corfforaethol i brynu dau eiddo, gyda thrydydd pryniant ar waith ar hyn o bryd. Roedd rhagor o fanylion yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Croesawodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad a darparodd weledigaeth o sut allwn ni symud ymlaen yn y Fwrdeistref Sirol i helpu'r rhai oedd angen cartref.<br><br>Gofynnodd Aelodau o'r Cabinet beth fyddai'r gost gysylltiedig wrth symud ymlaen mewn perthynas â'r galw am lety dros dro. Datganodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid oherwydd bod y llefydd preswyl wedi cael eu hadnewyddu'n ddiweddar nad oeddem yn rhagweld y byddai costau uchel ar hyn o bryd ar gyfer cynnal a chadw, fodd bynnag mae trefniadau wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cwrdd â'r gofynion cynnal a chadw hynny.<br><br>Atebwyd ymholiadau pellach gan Aelodau o'r Cabinet gan y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:<br><br>• Yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn;<br><br>• Cymeradwyo caffael tri eiddo sydd o fewn amcangyfrifon cyfalaf y Cyngor er mwyn darparu llety dros dro, yn amodol ar bob diwydrwydd dyladwy a chyngor cyfreithiol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Medi 2024 |

## 365. Offer Cyfalaf Torri Glaswellt Dinesig a Gwledig

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol adroddiad oedd yn diweddaru'r Cabinet mewn perthynas â darparu gwasanaeth torri glaswellt yn y dref ac yng nghefn gwlad, ac aethant ati i geisio sicrhau cymeradwyaeth y Cabinet er mwyn i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cyngor oedd yn argymell ymgorffori cyllideb cyfalaf o £340,000, i'w throsglwyddo o gyllideb cyfalaf Raven's Court.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau i'r Ifanc i ni ystyried cynllun darparu ar gyfer y gwasanaeth fel bod y cyhoedd yn gallu cael disgwyliadau realistig wrth symud ymlaen.<br><br>Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad y byddai dod â'r gwasanaeth hwn yn fewnol yn rhoi gwell rheolaeth dros y gwasanaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn yr hinsawdd ariannol heriol oedd ohoni. Gofynnodd am eglurder ar y pwynt fod y gwasanaeth hwn i gael ei ddarparu o gyllidebau oedd yn bodoli eisoes. Eglurodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol y byddai'r flwyddyn gyntaf yn heriol o ran y gyllideb refeniw gan fod angen amser i'r gwasanaeth integreiddio'n iawn gyda'n gweithlu ein hunain, fodd bynnag, roedd hyn yn benodol ar gyfer pwrcasu offer.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> bod y Cabinet yn cytuno ar y trosglwyddiad arfaethedig o £340,000 yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer darparu Torri Glaswellt Trefol a Gwledig mewnol gydag ariannu arfaethedig o gyllideb bresennol Rhaglen Gyfalaf Ravenscourt, a chytunwyd y dylid cyflwyno adroddiad i'r Cyngor yn argymell y newid arfaethedig i'r rhaglen gyfalaf. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Medi 2024 |

## 366. Hunan-asesiad 2023/24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet am iddo argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo hunan-asesiad 2023/24.<br><br>Eglurodd mai hwn oedd y trydydd hunan-asesiad ond mai dyma'r cyntaf oedd yn adolygu perfformiad yn |

| | |
|---|---|
| | erbyn Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor ar gyfer 2023-2028, felly roedd angen proses newydd ar gyfer elfen berfformiad yr hunan-asesiad. Adroddwyd am y prif newidiadau a wnaed wrth y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ar 18 Ebrill 2024 ac fe'u hamlinellwyd yn 3.1 o'r adroddiad.<br><br>Cynghorodd y dylai canfyddiadau drafft o'r tri gofyniad perfformiad gael eu dwyn ynghyd a'u hadrodd arnynt mewn amrywiol bwyllgorau. Mae'r argymhellion o'r pwyllgorau hyn bellach wedi cael eu defnyddio yn sail i'r hunan-asesiad sy'n cael ei gyflwyno heddiw a'i atodi yn Atodiad 1.<br><br>Croesawodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad yr adroddiad a gofynnodd a oedd y broses hon yn gwella'n barhaus, ac a oedd y Cynllun Corfforaethol newydd wedi gwneud y broses hon yn fwy cynhwysfawr.<br><br>Datganodd y Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus fod hon yn broses wella barhaus flwyddyn ar ôl blwyddyn a chafodd y Cynllun Corfforaethol ei ddatblygu i'n helpu ni i wella ein hunan-asesiad yn ogystal â mynd i'r afael â pheth o'r feirniadaeth gan Archwilio Cymru ynghylch ein hagwedd ehangach at reoli perfformiad. Ychwanegodd flwyddyn ar ôl blwyddyn y byddem yn gweld llawer am ddata cymharol a fyddai hefyd yn sail i'n hamcanion wrth symud ymlaen, ac yn eu llywio.<br><br>PENDERFYNWYD: fod y Cabinet yn:<br><br>• Cymeradwyo'r hunan-asesiad drafft yn Atodiad 1<br>• Cymeradwyo'r crynodeb perfformiad yn Atodiad 2 |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Medi 2024 |

**367. Diwygiadau i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheolaethol, AD a Pholisi Corfforaethol adroddiad oedd yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Dirprwyo Ffwythiannau a gofynnodd am i'r Cabinet gymeradwyo'r diwygiadau hyn.<br><br>Roedd y diwygiadau yn cymryd i ystyriaeth y newidiadau yn y portffolio yn dilyn cyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai, lle gwelwyd swydd aelod cabinet ychwanegol yn cael ei neilltuo yn ogystal â |

| | |
|---|---|
| | newidiadau i'r portffolios.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>Yn Cymeradwyo'r diwygiadau i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau mewn perthynas â theitlau a phortffolios Aelodau Cabinet fel y cyfeirir atynt yn 3.1;<br><br>Yn awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud newidiadau testunol a diwygiadau bach i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau er mwyn rhoi ystyriaeth i newidiadau yn y ddeddfwriaeth a newidiadau i deitlau a chyfrifoldebau'r Swyddog a'r Aelod. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Medi 2024 |

## 368. Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir 2023-24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Rheolaethol a Rennir adroddiad oedd yn darparu'r Cabinet gydag Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Rheolaethol a Rennir ar gyfer 2023-24 i'w nodi.<br><br>Amlygodd y prif feysydd perfformiad gweithrediadol ar draws y rhanbarth oedd yn cwmpasu lefelau absenoldebau salwch staff, lefelau staffio Iechyd Amgylcheddol a Safonau Masnach, rhaglen archwilio Bwyd a'r cyfyngiadau o ran y cyfyngiadau i'r gyllideb. Cafodd y rhain eu cyflwyno mewn manylder yn yr atodiadau.<br><br>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd, mewn perthynas â'r eiddo a grybwyllwyd ar dudalen 115, sut oedd y gwaith i leihau eu hallyriadau carbon yn cael ei ei weithredu.<br><br>Datganodd Pennaeth y Gwasanaethau Rheolaethol a Rennir fod hyn i gyd wedi'i gyflawni'n wirfoddol gan yr eiddo drwy ymgysylltu a sgyrsiau, yn ogystal â'u cyfeirio at lefydd lle gallant sicrhau'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i wneud y newidiadau hynny.<br>Rhannodd y Dirprwy Arweinydd ei diolchgarwch i'r tîm am y gwaith roeddent wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn. Roedd hi'n falch o weld fod cyfraddau glendid busnesau ym Mhen-y-bont ar Ogwr mor uchel a'i fod yn cynnig sicrwydd i breswylwyr Pen-y-bont ar Ogwr. |

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn nodi Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau a Rennir ar gyfer 2023-24. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Medi 2024 |

## 369. Polisi Addysg Ddewisol yn y Cartref 2024-2027

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd Rheolwr Grŵp - Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r Polisi Addysg Ddewisol yn y Cartref.<br><br>Eglurodd fod y Polisi Addysg Ddewisol yn y Cartref yn hanfodol a'i fod yn cyfrannu at les a hawliau addysgol plant a phobl ifanc. Mae'r polisi Addysg Ddewisol yn y Cartref yn galluogi'r awdurdod lleol i gasglu data ar y nifer o blant sy'n cael eu haddysgu gartref, demograffeg y teuluoedd hyn a'r dulliau addysgiadol oedd yn cael eu defnyddio. Roedd rhagor o fanylion yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Gofynnodd Aelodau o'r Cabinet am ychydig o eglurder ar y ffigyrau ynghylch plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref a'u grŵp oedran ac unrhyw ffactorau eraill a allai fod yn berthnasol megis anghenion dysgu ychwanegol. Gwnaethant gais yn ogystal am ffigyrau faint o blant bob blwyddyn oedd byth yn mynychu'r ysgol. Byddai dadansoddiad pellach o'r ffigyrau hyn yn cael eu darparu yn ddiweddarach.<br><br>PENDERFYNWYD Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r polisi a atodwyd yn Atodiad 1. |
| | 24 Medi 2024 |

## 370. Cynrychiolaeth ar Gyrff Allanol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Rheolaethol a Rennir adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer penodi Aelod newydd i sefyll yn lle'r cyn gynrychiolydd ar Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Mae un lle gwag wedi codi oddi allan i'r corff hwn a chynigir bod y Cynghorydd Jane Gebbie yn llenwi'r rôl |

| | |
|---|---|
| | hon. Bydd y Cynghorydd Amanda Williams yn parhau i fod yn gynrychiolydd arall ar ein rhan.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn penodi'r Cynghorydd Jane Gebbie fel un o'r ddau gynrychiolydd Aelod a Etholwyd ar Ofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Medi 2024 |

**371. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Nid oedd unrhyw eitemau brys |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Medi 2024 |

Er mwyn gweld y drafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 16:45